

2017 Rhif (Cy.)

2017 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A487
(Penparc, Ceredigion) (Terfynau
Cyflymder 40 mya ac 20 mya
Rhan-amser) 2017

The A487 Trunk Road (Penparc,
Ceredigion) (40 mph & Part-time
20 mph Speed Limits) Order 2017

Gwnaed 15 Awst 2017

Made 15 August 2017

Yn dod i rym 17 Awst 2017

Coming into force 17 August 2017

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 84(1)(c), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 Fishguard to Bangor Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by section 84(1)(c), (1A) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police, make this Order.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Title, Interpretation and Commencement

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Awst 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Penparc, Ceredigion) (Terfynau Cyflymder 40 mya ac 20 mya Rhan-amser) 2017.

1. This Order comes into force on 17 August 2017 and its title is The A487 Trunk Road (Penparc, Ceredigion) (40 mph & Part-time 20 mph Speed Limits) Order 2017.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

2.—(1) In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2);

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) 1984 p.27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p.22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dreoleiddio 2015 (p.20).

(2) 1984 c.27; Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2), and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor ym Mhenparc yn Sir Ceredigion;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiadau

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1.

4. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2.

Cymhwys

5.—(1) Ni fydd y cyfyngiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

15 Awst 2017

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A487 Fishguard to Bangor trunk road at Penparc in the County of Ceredigion.

Restrictions

3. No person shall drive any motor vehicle at a speed exceeding 20 miles per hour on the length of the trunk road described in Schedule 1.

4. No person shall drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road described in Schedule 2.

Application

5.—(1) The restrictions in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers.

Dated

15 August 2017

Nina Ley

Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 130 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sirol ddiddosbarth gyferbyn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Penparc hyd at bwynt 167 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 40 mya

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 130 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sirol ddiddosbarth gyferbyn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Penparc hyd at bwynt 382 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 167 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sirol ddiddosbarth gyferbyn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Penparc hyd at bwynt 375 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

SCHEDULES

SCHEDULE 1

Part-time 20 mph Speed Limit

The length of the trunk road that extends from a point 130 metres south-west of the centre-point of its junction with the unclassified county road opposite Penparc Community Primary School to a point 167 metres north-east of the centre-point of that junction.

SCHEDULE 2

40 mph Speed Limit

The length of the trunk road that extends from a point 130 metres south-west of the centre-point of its junction with the unclassified county road opposite Penparc Community Primary School to a point 382 metres south-west of the centre-point of that junction.

The length of the trunk road that extends from a point 167 metres north-east of the centre-point of its junction with the unclassified county road opposite Penparc Community Primary School to a point 375 metres north-east of the centre-point of that junction.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487
(PENPARC, CEREDIGION) (TERFYNAU
CYFLYMDER 40 MYA AC 20 MYA RHAN-
AMSER) 2017**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adran 84(1)(c), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n dod i rym ar 17 Awst 2017.

Effaith y Gorchymyn yw cyflwyno terfyn cyflymder 20 mya rhan-amser ar y darn o gefnffordd yr A487 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn er mwyn gostwng cyflymder traffig a hybu diogelwch cerddwyr ger Ysgol Gynradd Gymunedol Penparc ym Mhenparc, Ceredigion. Mae terfyn cyflymder 40 mya hefyd yn cael ei gyflwyno ar y darnau o gefnffordd yr A487 a ddisgrifir yn Atodlen 2 er mwyn gostwng cyflymder traffig ar y darnau o'r ffordd sy'n arwain at yr ysgol. Dim ond yn ystod cyfnodau cyfyngedig o'r dydd yn ystod y tymor ysgol y disgwylir y bydd y terfyn cyflymder 20 mya rhan-amser yn gymwys.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 16 Awst 2017 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan, yn rhad ac am ddim, yn Llyfrgell Aberteifi, 4^{ydd} Llawr Canolfan Aberteifi, Pendre, Aberteifi SA43 1JL neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1292199/1.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Parhaol/ 2017).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser

Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 130 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sirol ddiddosbarth gyferbyn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Penparc hyd at bwynt 167 o

**THE A487 TRUNK ROAD (PENPARC,
CEREDIGION) (40 MPH & PART-TIME 20
MPH SPEED LIMITS) ORDER 2017**

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under section 84(1)(c), (1A) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 17 August 2017.

The effect of the Order is to introduce a part-time 20 mph speed limit on the length of the A487 trunk road described in Schedule 1 to this Notice in order to reduce the speed of traffic and promote pedestrian safety near Penparc Community Primary School at Penparc, Ceredigion. A 40 mph speed limit is also being introduced on the lengths of the A487 trunk road described in Schedule 2 to reduce the speed of traffic on the approaches to the school. The part-time 20 mph speed limit is only expected to apply for limited periods of the day during school term time.

During a period of 6 weeks from 16 August 2017 a copy of the Order and plan may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Cardigan Library, 4th Floor Canolfan Teifi, Pendre, Cardigan SA43 1JL or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1292199/1.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2017).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

SCHEDULES

SCHEDULE 1

Part-time 20 mph Speed Limit

The length of the A487 trunk road that extends from a point 130 metres south-west of the centre-point of its junction with the unclassified county road opposite Penparc Community Primary School to a point 167

fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

ATODLEN 2
Terfyn Cyflymder 40 mya

Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 382 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sirol ddiddosbarth gyferbyn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Penparc hyd at bwynt 130 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 375 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sirol ddiddosbarth gyferbyn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Penparc hyd at bwynt 167 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

metres north-east of the centre-point of that junction.

SCHEDULE 2
40 mph Speed Limit

The length of the A487 trunk road that extends from a point 382 metres south-west of the centre-point of its junction with the unclassified county road opposite Penparc Community Primary School to a point 130 metres south-west of the centre-point of that junction.

The length of the A487 trunk road that extends from a point 375 metres north-east of the centre-point of its junction with the unclassified county road opposite Penparc Community Primary School to a point 167 metres north-east of the centre-point of that junction.